**Adroddiad Rhif 43/23**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol**

## Adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

---

## Pwnc:
## Drafft o Strategaeth y Gymraeg 2023 - 2028

Diben yr Adroddiad
Mabwysiadu'r drafft o Strategaeth y Gymraeg 2023 - 2028 fel strategaeth yr Awdurdod ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol dros y 5 mlynedd nesaf.

Cyflwyniad / Cefndir
Ar y 30ain o Fedi 2015, roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn nodi nifer o Safonau'r Gymraeg y mae'n ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy. Mae Safon 145 yn nodi:

"Rhaid i chi gynhyrchu, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut yr ydych chi'n bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal chi; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg materion eraill):

(a) targed (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a
(b) datganiad sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;

a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd o gyhoeddi strategaeth (neu o gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig)."

Cafodd y Strategaeth Iaith Gymraeg gyntaf ei mabwysiadu gan yr Awdurdod ar 29 Tachwedd 2017.

Cyfrifiad 2021
Roedd Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 19.4% (3,977) o'r holl drigolion arferol 3 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae hyn yn uwch na 17.2% yn Sir Benfro a 17.8% yng Nghymru. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 1.4% yn ardal y Parc Cenedlaethol ers Cyfrifiad 2011, ychydig yn uwch na'r gostyngiad a welwyd ar lefel genedlaethol Cymru o 1.2%.

Mae asesiad Llywodraeth Cymru o’r ystadegau ar lefel genedlaethol yn nodi bod Cyfrifiad 2021 wedi’i gynnal yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19) ar 21 Mawrth 2021. Roedd hyn yn dilyn y cyfnodau clo, plant yn dysgu o bell, a nifer fawr o bobl yn gweithio gartref. Ni ellir dweud yn union pa effaith gafodd y pandemig ar allu pobl yn y Gymraeg (nac ar ganfyddiad pobl o allu eraill yn y Gymraeg).

Gweithgor Strategaeth y Gymraeg
Fis Hydref 2022, penderfynodd yr Awdurdod sefydlu Gweithgor Strategaeth y Gymraeg o Aelodau a Swyddogion i adolygu perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei Strategaeth Iaith Gymraeg gyfredol 2017 – 2022, ac i ddrafftio ail Strategaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Mae’r Gweithgor wedi cyfarfod bedair gwaith, ac mae’r oedi cyn cwblhau’r gwaith hwn i’w briodoli i newidiadau yn y staff a’r amser cyn rhyddhau’r wybodaeth ystadegol allweddol o Gyfrifiad 2021.

Mae'r Gweithgor wedi ystyried yr adolygiad sydd ynghlwm o'r Strategaeth Iaith Gymraeg gyfredol 2017-2022, ynghyd â Strategaeth ddrafft 2023-28.

Ystyriaethau ariannol
Mae'r amcanion sydd yn y Strategaeth yn rhan o'r Cynlluniau Cyflawni y mae’r Awdurdod eisoes wedi cytuno arnynt, felly gellir cyflawni’r amcanion hyn o fewn y cyllidebau y cytunwyd arnynt.

Ystyriaethau risg / Cydymffurfiaeth
Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Strategaeth Iaith Gymraeg fel rhan o gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Gallai methu â chynhyrchu’r cyfryw Strategaeth arwain at gosb sifil.

Crynodeb o’r Asesiad Integredig
Mae Asesiad integredig wedi’i gynnal ar y Strategaeth ac mae’r crynodeb i’w weld yn Atodiad 1.

## ARGYMHELLIAD :
**Bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r drafft o Strategaeth y Gymraeg 2023 - 2028.**

*Awdur: Caroline Llewellyn, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd*
*Ymgynghorai: Tîm Rheoli APCAP*

Dogfennau Cefndir
Adroddiadau Rhif 56/17 a 15/17 i gyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar y 29 Tachwedd a 29 Mawrth 2017.
Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar y 30[ain] o Fedi 2015.

*(Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Caroline Llewellyn, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ar estyniad 4804 neu drwy e-bostio carolinel@pembrokeshirecoast.org.uk)*

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r Asesiad Integredig o Strategaeth y Gymraeg**

**Cydraddoldeb / Anfantais Economaidd Gymdeithasol ac Anghydraddoldeb Canlyniadau / Anghydraddoldebau a Chanlyniadau Iechyd - Crynodeb o'r Effaith**

**Ffocws ar fod yn Gynhwysol**
Nod y strategaeth hon yw bod yn strategaeth gynhwysol â datganiad clir yn y cyflwyniad sy'n amlygu hynny. Nod ymagwedd gynhwysol yw helpu i chwalu tensiynau all godi o hyrwyddo'r Gymraeg, gyda'r nod bod y strategaeth hon yn cynyddu cyfleoedd i bawb weld a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau sy'n gysylltiedig â gwaith a meysydd dylanwad yr Awdurdod.

**Cyflawnadwy o dan Amcan 1**
Bydd hyn yn ategu'r manteision llesiant ehangach i siaradwyr Cymraeg o allu defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ac yn y gweithle. Roedd Asesiad Llesiant Sir Benfro yn nodi bod "siaradwyr Cymraeg yn dweud bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ac yn y gweithle yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant."

Bydd yn rhoi cyfleoedd a chymorth i'r staff, waeth beth yw eu hoedran, i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Gallai hyn fod yn fantais i gael swydd neu yrfa yn y dyfodol gan fod gweithwyr wedi datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Dylai cynyddu sgiliau'r staff gynyddu gallu'r Awdurdod a hyder y staff i fabwysiadu ymagwedd 'cynnig gweithredol'. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i staff sy'n gweithio yn y maes cynhwysiant a staff eraill sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd, gan gynnwys yn ein canolfannau neu drwy ein rhaglen addysg a dysgu cymunedol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ein gallu i gyflawni'r amcanion o dan Amcan 2. Dylai cynyddu sgiliau Cymraeg staff hefyd helpu i sicrhau ein bod yn ystyriol o'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg fel bod siaradwyr Cymraeg yn elwa ar y dulliau cynhwysol a fabwysiedir gennym ac nad ydynt yn wynebu rhwystrau ychwanegol.

**Cyflawnadwy o dan Amcan 2**
Bydd hyn yn ein cynorthwyo i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein mentrau blynyddoedd cynnar. Bu gostyngiad ar draws pob grŵp oedran sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 yn ôl y Cyfrifiad yn Sir Benfro. Roedd canran y gostyngiad yn fwyaf arwyddocaol yn y rhai 3 i 15 oed (-8.5%). Mae'r blynyddoedd cynnar wedi'u clustnodi fel rhai sy'n chwarae rhan bwysig o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr Cymraeg'.

Bydd hyn yn gymorth i ni hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ein rhaglenni addysg a dysgu cymunedol, er budd pobl o bob oed.

Bydd hyn yn gymorth i ni hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy ein gwaith cynhwysiant ac allgymorth gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu'r rhai sy'n wynebu rhwystrau i gael mynediad i'r Parc. O ganlyniad mae gan y strategaeth y potensial i gyfrannu at yr effeithiau a glustnodir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru 'Cymru Wrth-hiliol' ar ddarparu mwy o brosiectau Cymraeg ar gyfer pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru, a mwy o unigolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru yn mwynhau gweithgareddau a digwyddiadau drwy

gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn gyfle i ni weithio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i adolygu'r derminoleg Gymraeg a ddefnyddiwn i sicrhau eu bod yn gynhwysol.

**Cyflawnadwy o dan Amcan 3**
Mae cyfrannu at iaith gymunedol gydnerth drwy'r broses gynllunio â'r potensial i gefnogi teuluoedd a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i aros yn eu cymunedau.

O ran Polisïau Gosod Lleol ar Safleoedd Eithriedig Gwledig mae'n bwysig ystyried y ffaith bod Parciau Cenedlaethol yn tueddu i fod yn llai amrywiol o ran ethnigrwydd nag ardaloedd eraill (mae 98.06% o drigolion Parc Arfordir Penfro yn clustnodi eu bod yn y categori Gwyn o ran ethnigrwydd). [1]O ganlyniad, bydd angen i'r Awdurdod ystyried unrhyw effeithiau posibl o ran cydraddoldeb allai godi drwy ddefnyddio polisïau gosod lleol ar safleoedd eithriedig gwledig a'r goblygiadau i'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**Cysylltiad â'n Cynllun a'n Hamcanion Cydraddoldeb**
Mae cysylltiad clir rhwng y strategaeth ag Amcanion a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod sydd i'w adolygu. O ganlyniad, byddwn yn edrych ar y modd y mae'r Cynllun Cydraddoldeb yn ryngweithio â'r Strategaeth Iaith Gymraeg i sicrhau

- pan fyddwn yn edrych ar gyfathrebu ac ymgysylltu hygyrch a chynhwysol, ein bod yn ystyried anghenion Siaradwyr a Dysgwyr Cymraeg o ran creu cyfathrebu hygyrch a chynhwysol yn Gymraeg.
- cyfleoedd i gyfrannu at yr effeithiau ar y Gymraeg o fewn 'Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol' Llywodraeth Cymru.
- darparu addasiadau rhesymol a chymorth ychwanegol i'r staff, Aelodau, a'r gwirfoddolwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg ond a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion cyfathrebu hygyrch.

**Yr Iaith Gymraeg – Crynodeb o'r Effeithiau**

**Defnydd o'r Gymraeg**
Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar osod amcanion a chamau gweithredu clir sy'n cefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn unol â Chynlluniau Cyflawni yr Awdurdod i sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei chyflawni. Cyfeiriwyd yn benodol at y ffaith bod hon yn strategaeth gynhwysol, a'r prif amcan yw cynyddu cyfleoedd i bawb weld a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau sy'n gysylltiedig â gwaith yr Awdurdod a'r meysydd o ddiddordeb. Mae'r cyflawniadau dan Amcan 1 ac Amcan 2 yn cysylltu â Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, a dylai'r amcanion hyn gefnogi mwy o ddefnydd ar draws y gweithle, gwasanaethau a'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

**Nifer y Siaradwyr Cymraeg**
Dylai cyflawniadau Strategaeth y Gymraeg o dan Amcanion 1 a 2 gefnogi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn enwedig drwy ein mentrau blynyddoedd cynnar a chefnogi datblygu sgiliau Cymraeg Staff, Aelodau a gwirfoddolwyr. Bydd hyn yn cynnwys y rhai nad oes ganddynt, efallai, unrhyw wybodaeth Gymraeg yn barod.

---

[1] Preswylwyr Parciau Cenedlaethol, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

**Siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn rhugl ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg**
Dylai cyflawniadau Amcan 1 gynorthwyo siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ymhlith y staff, Aelodau a gwirfoddolwyr fod yn rhugl ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai hyn hefyd ein helpu i gynnig mwy o gyfleoedd a chyflawni cyfleoedd 'cynnig gweithredol' o dan yr hyn y gellir ei gyflawni o dan Amcan 2, gan roi mwy o hyder i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd ehangach ymgysylltu â ni yn Gymraeg.

**Cymunedau Cymraeg Cynaliadwy**
Mae creu amodau ffafriol o ran cymunedau Cymraeg cynaliadwy a rôl y gwasanaeth cynllunio wedi'u cydnabod o dan Amcan 3.

- **Cyflawnadwy:** Ni fydd datblygiad fyddai'n arwain at effaith andwyol annerbyniol ar yr iaith Gymraeg yn cael ei ganiatáu mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Iaith Gymraeg a nodir ym Mholisi 13 o'r Cynllun Datblygu Lleol 2.
- **Cyflawnadwy:** Byddwn yn cyfrannu at gydnerthedd ieithyddol cymunedau drwy gynllunio bod tai fforddiadwy yn cael eu darparu i fynd i'r afael ag anghenion lleol a math a chymysgedd priodol o dai cyffredinol o fewn y Parc, a byddwn yn ystyried y defnydd a wneir o bolisïau gosod lleol cymunedau gwledig ar safleoedd eithriedig gwledig.

**Safonau'r Gymraeg**
O ran Safonau'r Gymraeg (145/146) mae'r adolygiad o Strategaeth Iaith Gymraeg APCAP wedi'i gynnal fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd. Nid oes targed penodol mewn rhifau wedi'i gynnwys (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) gan fod yr Awdurdod yn gyfyngedig o ran y dylanwad y gall ei gael o fewn ei gylch gorchwyl, ac ni fydd data'r Cyfrifiad diweddaraf ar gael y tro nesaf y daw'n amser i adolygu'r cynllun. Yn hytrach, mae'r cynllun yn nodi "Wrth gyflawni'r strategaeth hon rydym yn ceisio cefnogi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid a phartneriaid ar draws y Parc, Sir Benfro a'r Tirweddau Dynodedig i gyflawni hyn."

**Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio – Crynodeb o'r Effaith**
Bydd cyflawni dan Amcan un yn helpu i gynorthwyo'r Awdurdod i barhau i ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys tirfeddianwyr, gwirfoddolwyr a chymunedau yn Gymraeg wrth gyflawni ein gweithgareddau adfer byd natur.

Mae'n bwysig bod ein gwaith i gefnogi pobl sy'n wynebu rhwystrau rhag cael mynediad i fannau gwyrdd/ glas yn ystyried anghenion Siaradwyr Cymraeg ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ddysgu am y Gymraeg yn y Tirweddau. Mae perthynas yr iaith Gymraeg â threftadaeth naturiol ac adeiledig yn bwysig o ran y defnydd o enwau lleoedd a nodweddion yn y dirwedd. Bydd cyflawniadau Amcan 2 yn cefnogi cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Tirweddau.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: 7 Nod Llesiant i Gymru / 5 Ffordd o Weithio a Thueddiadau'r Dyfodol / Crynodeb o Sganio'r Gorwel**

Dylai'r Strategaeth wneud cyfraniad cadarnhaol at y Nodau Llesiant, yn enwedig Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu, a charreg filltir genedlaethol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dylai amcanion y cynllun gynorthwyo’r Awdurdod i gynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei weithlu ac wrth ddarparu ei wasanaethau. Dylai gweithgareddau ehangach sy’n gysylltiedig â chreu lleoedd gynnal cydnerthedd yr iaith yn y gymuned.

O ran integreiddio, mae'r Strategaeth yn gosod tri amcan i'r Awdurdod o ran hyrwyddo'r Iaith Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf. Mae gan bob Amcan set o bethau y gellir eu cyflawni â blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â chynlluniau cyflawni yr Awdurdod i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu a'u monitro. Bydd y Cynlluniau Cyflawni a pherfformiad yn cael eu hadolygu yn flynyddol fel rhan o'r cylch cynllunio corfforaethol. Mae hyrwyddo’r Gymraeg wedi’i glustnodi fel un o’r canlyniadau trawsbynciol sy’n gysylltiedig â chyflawni ein Hamcanion Llesiant. Mae pob cynllun cyflawni yn nodi’r modd y byddant yn cael eu gweithredu i gymryd hyrwyddo'r Gymraeg i ystyriaeth.

Nid oes unrhyw ymgynghori ffurfiol wedi digwydd ar gyfer y strategaeth, fodd bynnag mae'r adolygiad ehangach o Gynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol yn rhoi cyfle i'r Awdurdod ymgysylltu â chynulleidfa ehangach ar ystyriaethau'r Gymraeg a'r Parc.

Bydd yr adolygiad o Amcanion a Chynllun Cydraddoldeb yr Awdurdod yn ystyried Strategaeth yr Iaith Gymraeg a'r goblygiadau o ran siaradwyr Cymraeg a darparu cyfathrebu a phrofiadau hygyrch a chynhwysol.

Mae’r llinellau canlynol wedi’u hychwanegu at y cyflwyniad i’r strategaeth: “*Byddwn yn gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid a phartneriaid ar draws y Parc, Sir Benfro a’r Tirweddau Dynodedig i gyflawni hyn.”* i gydnabod pwysigrwydd cydweithio o ran cyflawni’r strategaeth hon.

O ran sganio'r gorwel mae'r Awdurdod yn cydnabod y rôl gynyddol sydd gan y gwasanaethau digidol a thechnoleg yn ei waith ar gyfer y staff a’r defnyddwyr gwasanaeth. Bydd yr adolygiad digidol yng nghynllun cyflawni trawsnewid digidol yr Awdurdod yn ystyried y materion sy'n gysylltiedig â safonau'r Gymraeg ac arfer gorau sy'n cael eu hyrwyddo gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ar yr Iaith Gymraeg a dylunio gwasanaethau.

**Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – 2023 -2028**

## 1. Rhagymadrodd

Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r modd y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg drwy ei waith a'i feysydd dylanwad.

Mae'r Gymraeg, fel un o'r ieithoedd lleiafrifol hynaf a mwyaf cadarn yn Ewrop, yn ganolog i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru ac yn chwarae rhan bwysig yn nhreftadaeth ieithyddol y Parc.

Mae hon yn strategaeth gynhwysol, a'r prif amcan yw cynyddu cyfleoedd i bawb weld a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau sy'n gysylltiedig â gwaith yr Awdurdod a meysydd dylanwad.

Wrth gyflawni'r strategaeth hon ein nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn gweithio ar y cyd â'r rhanddeiliaid a'r partneriaid ar draws y Parc, Sir Benfro a'r Tirweddau Dynodedig i gyflawni hyn.

## 2. Cyfrifiad – Y Gymraeg yn y Parc

Ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021, roedd 19.4% (3,977) o'r holl drigolion arferol 3 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn ardal Arfordir Penfro. Mae hyn yn uwch na 17.2% yn Sir Benfro a 17.8% yng Nghymru. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 1.4% yn ardal Arfordir Penfro ers Cyfrifiad 2011, ychydig yn uwch na'r gostyngiad a welwyd ar lefel genedlaethol Cymru o 1.2%.

Roedd data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod gan bedair ardal Cyngor Cymuned yn y Parc dros hanner eu poblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Y rhain yw Crymych, Cwm Gwaun, Eglwyswrw a Maenclochog. Mae hyn yn ostyngiad o bump ardal yn 2011 a saith yn 2001.

Mae Cynllun Datblygu Lleol 2 yr Awdurdod yn cydnabod ac yn gwarchod yr iaith Gymraeg fel un o Rinweddau Arbennig y Parc (Polisi 8). Bydd Polisi 13 Datblygu mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Iaith Gymraeg fel arfer yn berthnasol mewn ardaloedd Cynghorau Cymuned a Thref sydd â 19.2% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, fel y clustnodir yn y Cyfrifiad. Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 clustnodwyd yr ardaloedd canlynol fel Ardaloedd Sensitif i'r Iaith Gymraeg yn y Cynllun Datblygu Lleol 2 : Crymych, Cwm Gwaun, Dinas, Eglwyswrw, Abergwaun ac Wdig, Cas-lai, Llanrhian, Llawhaden, Maenclochog, Mathri, Mynachlog-ddu, Nanhyfer, Trefdraeth, Pen-caer, Cas-mael, Solfach, Tyddewi a Llandudoch.

Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ar draws Arfordir Penfro mae'n werth nodi bod Sir Benfro gyfan dros y blynyddoedd diwethaf wedi gweld twf yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

## 3. Y Cyd-destun Polisi

Gosodir y Strategaeth hon yng nghyd-destun dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a nodir yn "Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg" ac mae'n un o'r cerrig milltir cenedlaethol o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar lefel leol cynorthwyir hyn hefyd gan Ddibenion y Parc Cenedlaethol (fel y'u diffinnir yn Neddf yr Amgylchedd, 1995), Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a Chynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod, a nod pob un yw cefnogi treftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr Awdurdod i gydymffurfio ag ystod o Safonau y cytunir arnynt gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Mae Safon 145 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth pum mlynedd ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar y strategaeth bum mlynedd flaenorol a gyflwynwyd gan APCAP rhwng 2017 a 2022.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ei ganllawiau arferion gorau wedi clustnodi sawl ffactor allweddol sy'n effeithio ar ddefnydd iaith unigolion:

- **Parhad** - parhad profiadau a chyfleoedd o addysg gynradd i addysg uwchradd; o addysg uwchradd i addysg bellach neu uwch; o addysg i'r gweithle, hamdden, magu teuluoedd, yn ogystal â phrofiadau cymdeithasol a chymunedol, ynghyd â pharhad rhwng dysgu Cymraeg a dod yn rhugl.
- **Cyfle** – gall ansawdd a hwylustod cyfleoedd effeithio'n fawr ar y defnydd o'r iaith a chefnogi defnydd o'r iaith yn y dyfodol.
- **Agweddau** - mae'n bwysig ystyried sut mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo am eu gallu a'u defnydd o'r iaith a'r modd y maent yn gweithredu ar hyn, a sut mae'r di-Gymraeg yn teimlo am yr iaith a'r modd y mae hyn yn cael ei fynegi a'i ganfod.
- **Hyder** – gall hyder siaradwyr Cymraeg amrywio yn ôl y sefyllfa (e.e. ffurfiol ac anffurfiol) ac felly rhaid ystyried sut a ble i dargedu cymorth yn effeithiol.

## 4. Amcanion a'r hyn y gellir ei Gyflawni

Mae'r Strategaeth yn nodi tri amcan i'r Awdurdod o ran hyrwyddo'r Iaith Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf. Mae gan bob Amcan set o bethau y gellir eu cyflawni â blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â chynlluniau cyflawni yr Awdurdod i sicrhau eu bod

yn cael eu gweithredu a'u monitro. Bydd Cynlluniau Cyflawni a pherfformiad yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r cylch cynllunio corfforaethol.

Mae hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i glustnodi fel un o'r canlyniadau trawsbynciol sy'n gysylltiedig â chyflawni ein Hamcanion Llesiant. Mae pob cynllun cyflawni yn nodi'r modd y gweithredir yr amcanion i gymryd hyrwyddo'r Gymraeg i ystyriaeth.

**Amcan 1 – Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd ar draws yr Awdurdod, gan aelodau'r staff, yr Aelodau a gwirfoddolwyr**

- Cyflawni: Byddwn yn clustnodi sgiliau Cymraeg y staff, yr Aelodau a Gwirfoddolwyr, ac yn cefnogi eu datblygiad, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

  - I'w weithredu a'i fonitro drwy'r Cynllun Cyflawni Datblygu Sgiliau a Darparu Hyfforddiant.

**Amcan 2 – Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd ar draws ein gwasanaethau, prosiectau a gweithgareddau, gan y cyhoedd a'r defnyddwyr gwasanaeth**

- Cyflawni: Byddwn yn cyflwyno rhaglen o gyfleoedd ar draws ein canolfannau, digwyddiadau a gwaith allgymorth gan gefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

- Cyflawni: Byddwn yn rhoi cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a'r Gymraeg yn y Dirwedd fel rhan o'r gweithgareddau a'r prosiectau a ddatblygwyd i gynyddu mynediad i fyd natur i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol, yn ogystal â bod yn rhan o raglen o ddysgu gydol oes a chymunedol.

  - I'w weithredu a'i fonitro drwy'r Cynllun Cyflawni Bywyd Sir Benfro, y Cynllun Cyflawni Ymgysylltu, Cynnwys a Dysgu am y Parc a'r Cynllun Cyflawni Iechyd, Lles a Mynediad.

**Amcan 3: Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd ar draws pob rhan o'r Parc Cenedlaethol**

- Cyflawni: Ni fydd datblygiad fyddai'n arwain at effaith andwyol annerbyniol ar yr iaith Gymraeg yn cael ei ganiatáu mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Iaith Gymraeg a glustnodir ym Mholisi 13 o'r Cynllun Datblygu Lleol 2.

- Cyflawni: Byddwn yn cyfrannu at gydnerthedd ieithyddol cymunedau drwy gynllunio darparu tai fforddiadwy i fynd i'r afael ag anghenion lleol a'r math a chymysgedd priodol o dai cyffredinol o fewn y Parc, a byddwn yn ystyried defnyddio polisïau gosod tai lleol cymunedau gwledig ar safleoedd eithriedig gwledig.

- Cyflawni: Bydd yr adolygiad sydd yn yr arfaeth o gynllun presennol Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gyfle i archwilio'r rhyngberthynas rhwng amcanion yr Awdurdod i hyrwyddo'r Gymraeg, yr Amcanion Llesiant newydd a'r blaenoriaethau, â'i weithgareddau a'i ddyletswyddau ehangach o greu lleoedd.

    - I'w weithredu a'i fonitro drwy Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2, Cynllun Cyflawni Bywyd Sir Benfro a'r Cynllun Cyflawni Ymgysylltu, Cynnwys a Dysgu am y Parc.

## 5. Asesiadau Integredig

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddefnyddio Asesiadau Integredig fel arf i glustnodi effeithiau posibl strategaethau a phenderfyniadau ehangach ar hyrwyddo'r Gymraeg.

## Adolygiad o Strategaeth Iaith Gymraeg APCAP 2017-2022

Mabwysiadwyd Strategaeth Iaith Gymraeg yr Awdurdod fis Tachwedd 2017 gyda gweledigaeth i sicrhau cynnydd o 1% o boblogaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n gallu siarad Cymraeg erbyn 2022. Roedd y strategaeth yn seiliedig ar y tair thema strategol a glustnodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y ddogfen *"Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg"* fel y meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt, ac mae'r adolygiad hwn yn ystyried y gwaith sydd wedi'i wneud yn hyn o beth.

### Thema Strategol 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Dangosyddion:

**Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd â phlant cyn oed ysgol.**

- Mae Castell Henllys wedi cynnal Cân i Blant Penfro yn eu Tipi ac wedi cynorthwyo i gyflwyno sesiwn Mari Lwyd adeg yr Hen Galan a chyflwyno Wâc Natur ar gyfer y plant.
- Mae'r prosiect y 1,000 diwrnod cyntaf wedi dechrau ac yn ymgysylltu â nifer o Gylchoedd Meithrin (Abergwaun, Maenclochog, Eglwyswrw, Crymych). O'r data nid yw'n edrych fel bod yr un o'r sesiynau hyn hyd yn hyn wedi cael eu hwyluso drwy gyfrwng y Gymraeg gan APCAP.

**Cynnydd yn nifer y gweithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg a drefnwyd gan yr Awdurdod o 5 i 10 erbyn 2022.**

- Effeithiwyd ar y rhaglenni Digwyddiadau a Gweithgareddau gan COVID 19. O ran gweithgareddau digwyddiadau cyhoeddus ffurfiol, rydym wedi gweld cynnydd eleni gyda 10 digwyddiad Profwch yr Oes Haearn wedi'u cynnal hyd yn hyn yn 2022/23 gan Gastell Henllys. Cymysg fu'r canlyniadau o ran teithiau Cymraeg yng Nghaeriw dros y blynyddoedd diwethaf, heb yr un daith ambell flwyddyn.
- Mae gweithgareddau eraill yn fwy ad hoc ac yn ymwneud â sesiynau grŵp cymunedol, sesiynau gyda grwpiau Dysgwyr Cymraeg, Menter Iaith a sesiynau gwirfoddoli a hwylusir yn Gymraeg.
- Mae'r digwyddiadau a'r gweithgareddau yn Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf yn dueddol o gael eu cyflwyno gan nifer dethol o staff megis dau Barcmon y Gogledd a'r Archaeolegydd Cymunedol a'r rhai sy'n gweithio yng Nghastell Henllys sydd â sgiliau Cymraeg sy'n eu galluogi i hwyluso sesiynau yn y Gymraeg. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol o ran digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn Saesneg lle mae arweinwyr/ ôl-nodwyr gweithgareddau gwirfoddol wedi gallu sgwrsio â chyfranogwyr yn Gymraeg. Gan fod nifer fawr o'n digwyddiadau cyhoeddus yn y rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau yn cael eu cynnal gan arweinwyr gwirfoddol, mae'n bwysig ein bod yn annog siaradwyr Cymraeg i wirfoddoli os ydym am wella ein harlwy yn y maes hwn pan na all staff APCAP gynnal y sesiynau. Mae angen ystyried hefyd sut y gallwn deilwra ein harlwy i ddiwallu anghenion pobl yn Ne a Gorllewin y Parc.

| | 2016/17 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| # Digwyddiadau a gweithgareddau APCAP a gyflwynir yn Gymraeg | 34 | 54 | 32 | 10 (Effaith Covid) | 37 | 44 |
| # Cyfranogwyr yn nigwyddiadau a gweithgareddau APCAP a gyflwynir yn Gymraeg | 307 | 622 | 262 | 59 | 414 | 1010 (Effaith Sesiynau Profwch yr Oes Haearn yn CH) |
| Ddim yn casglu data ar ddigwyddiadau dwyieithog fel categori ar wahân ar hyn o bryd – gellid edrych i wneud hyn yn y dyfodol. Yn cynnwys Sesiynau Gwirfoddoli a gyflwynir yn Gymraeg.<br>Nid yw'n cynnwys gweithgareddau ymgysylltu cyffredinol â'r cyhoedd gan Barcmyn yr Haf drwy gyfrwng y Gymraeg. | | | | | | |

**Cynnydd yn nifer yr ysgolion sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg a drefnir gan yr Awdurdod o 10 i 15 erbyn 2022.**

- Cyflawnwyd hyn yn 2021/22 er gwaethaf effaith COVID. Fodd bynnag yn debyg i’r Digwyddiadau a Gweithgareddau, mae mwyafrif y sesiynau yn cael eu cyflwyno gan Gastell Henllys, Parcmyn y Gogledd (fel arfer i’r ysgolion hynny y mae ganddynt gysylltiadau daearyddol a/neu hanesyddol â hwy) ac yn y blynyddoedd blaenorol gan yr Archaeolegydd Cymunedol drwy’r Cynllun Gwarcheidwad Treftadaeth sydd bellach wedi dod i ben. Mae’n bosibl bod gennym fwlch daearyddol o ran ein harlwy a’r ysgolion yr ydym yn ymgysylltu â hwy, yn y Parc ac yn Sir Benfro yn ehangach.

  1. Ysgol Ffair-fach
  2. Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml
  3. Ysgol Llanychllwydog
  4. Ysgol Gynradd Godre’r Graig
  5. Yr Ysgol Gymraeg
  6. Ysgol Gynradd Gymunedol Eglwyswrw
  7. Ysgol Bro Cynfal
  8. Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad
  9. Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid
  10. Ysgol y Bedol
  11. Ysgol T Llew Jones
  12. Ysgol Gynradd Aberteifi
  13. Ysgol Gynradd Peniel
  14. Ysgol Gymraeg Blaendulais
  15. Ysgol Gynradd Ffwrnais
  16. Ysgol Lôn Las
  17. Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe
  18. Ysgol Gymunedol Brynconin
  19. Ysgol Llanddarog

20. Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran
21. Ysgol Llanychllwydog
22. Ysgol Bro Ingli
23. Ysgol Cas-mael - Ysgol Plant Bach ac Iau Cas-mael
24. Ysgol y Preseli
25. Ysgol Dyffryn Cledlyn
26. Ysgol Gynradd Gelli-aur

| | 2016/17 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| # sesiynau'r rhaglen addysg a gyflwynir yn Gymraeg | 55 | 95 | 76 | 5 (Effaith Covid) | 43 | 41 |
| # cyfranogwyr mewn sesiynau'r rhaglen addysg a gyflwynir yn Gymraeg | 1,433 | 2,713 | 2,290 | 184 | 1,231 | 1229 |

**Hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg yn adeiladau'r Parc Cenedlaethol ac mewn deunydd marchnata yn well.**

- Mae Paneli Darganfod Dwyieithog wedi eu darparu i ystod eang o safleoedd a busnesau ar draws y Parc.




- Derbyniwyd cwyn yn ymwneud â phanel dehongli ac arwyddion yng Nghaeriw, felly gallai hwn fod yn faes y mae angen i ni wneud mwy o waith arno.
- Cafodd cwyn hefyd ei wneud i Gomisiynydd y Gymraeg am nad yw'r Awdurdod yn cyhoeddi'r papur "Coast to Coast" yn ddwyieithog ac felly yn methu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Cadarnhawyd y gŵyn ac felly bydd rhifynnau'r dyfodol yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog.

**Thema Strategol 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

Dangosyddion:

**Nifer y staff sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg yn cynyddu**.

- Mae pob aelod o staff yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg ac mae 41.6% o'r staff wedi cwblhau'r cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' ar-lein yn ystod 2022/23. Mae cwblhau'r modiwl sylfaenol yn awr yn orfodol i bob aelod newydd o staff yr Awdurdod.

- Nid oes unrhyw ddata gan yr Awdurdod ar nifer y staff sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg ar hyn o bryd.

**Canran y staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn cynyddu.**

- Hysbysebwyd 59 o swyddi yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd 9 swydd yn y categori Cymraeg yn hanfodol a 50 yn y categori Cymraeg yn ddymunol neu'n fanteisiol.

- Ar 31 Mawrth 2023 roedd yr Awdurdod yn cyflogi 173 o staff. Roedd 36% (gostyngiad o 5% ar y flwyddyn flaenorol) wedi cwblhau eu data sgiliau iaith.

| Lefel | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Mynediad | 31 | 18% |
| Sylfaen | 2 | 1% |
| Canolradd | 11 | 6% |
| Uwch | 4 | 2% |
| Rhugl | 15 | 9% |

- Felly dim ond ar gyfer tua 1 rhan o 3 o staff y mae data ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfredol a dylid cynnal Archwiliad o Sgiliau Iaith Gymraeg.

- Mae cymhariaeth wedi'i wneud â'r ffigyrau o ddechrau cyfnod y Cynllun. Ar 31 Mawrth 2016 roedd yr Awdurdod yn cyflogi 153 o staff, gyda 30 (20%) ohonynt yn disgrifio eu hunain yn rhugl, a 59 (39%) arall yn disgrifio eu hunain fel "dysgwyr Cymraeg" neu "llai rhugl".

- Mae Asesiad Llesiant Sir Benfro wedi canfod bod siaradwyr Cymraeg yn nodi bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ac yn y gweithle yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant.

- Gellir sylwi bod y defnydd achlysurol o'r Gymraeg gan Aelodau mewn cyfarfodydd wedi cynyddu.

- Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r Adolygiad Strategol o Wirfoddoli yn 2021 yn dangos bod y cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg glywed yr iaith ac ymarfer sgwrsio yn Gymraeg mewn lleoliad anffurfiol, boed gyda'r gwirfoddolwyr neu'r staff, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

**Thema Strategol 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**

Dangosyddion:

**Cynnydd yn nifer y cymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol lle mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu.**

- O ddata Cyfrifiad 2021 ar gyfer APCAP, y canran o bob preswylydd arferol 3 oed a throsodd:
  - Sgiliau Iaith Gymraeg (llafar) - 19.4% (3,977 ); mae hyn yn uwch na 17.2% yn Sir Benfro a 17.8% yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 57.2% yn Eryri a 13% yn Bannau Brycheiniog.
  - Sgiliau Iaith Gymraeg (ysgrifennu) – 15.8% (3,241); mae hyn yn uwch na 13.9% yn Sir Benfro a 15.2% yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 50.5% yn Eryri a 10.9% yn Bannau Brycheiniog.
  - Sgiliau Iaith Gymraeg (darllen) – 18.2% (3,738); mae hyn yn uwch na 16.1% yn Sir Benfro a 17.3% yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 53.4% yn Eryri a 13.3% yn Bannau Brycheiniog.
  - Sgiliau Iaith Gymraeg (deall yr iaith) – 24.5% (5,027); mae hyn yn uwch na 22.2% yn Sir Benfro a 21.9% yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 60.9% yn Eryri a 17.6% yn Bannau Brycheiniog.

- Sgiliau Iaith Gymraeg (% o'r boblogaeth), ffigurau 2011 mewn cromfachau i allu cymharu. Mae'n bosibl nad yw'r rhain yn cymharu tebyg â'i debyg.

| | Dim sgiliau yn y Gymraeg | Yn gallu siarad Cymraeg | Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | Yn gallu siarad ond yn methu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | Yn gallu siarad a darllen ond yn methu ysgrifennu Cymraeg | Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PC Arfordir Penfro** | (70.3) | 19.4 (20.8) | 24.5 (6.7) | (3.5) | 18.2 (2.1) | 15.8 (15.0) | (2.4) |
| **Cymru** | (73.3) | 17.8 (19.0) | 21.9 (5.3) | (2.7) | 17.3 (1.5) | 15.2 (14.6) | (2.5) |

**Canran a niferoedd y siaradwyr Cymraeg fesul ardal Cyngor Cymuned**


| Cymuned | Cyfrifiad 2001 | Cyfrifiad 2011 | Cyfrifiad 2021 | % cynnydd /gostyngiad 2011 i 2021 | %Siaradwyr Cymraeg 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amroth | 139 | 140 | 121 | -13.6 | 10 |
| Angle | 25 | 35 | 30 | -14.3 | 9 |
| Breudeth | 187 | 189 | 191 | 1.1 | 21 |

| Cymuned | Cyfrifiad 2001 | Cyfrifiad 2011 | Cyfrifiad 2021 | % cynnydd /gostyngiad 2011 i 2021 | %Siaradwyr Cymraeg 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Burton | 119 | 119 | 137 | 15.1 | 11 |
| Camros | 291 | 293 | 259 | -11.6 | 15 |
| Caeriw | 163 | 179 | 163 | -8.9 | 11 |
| Cosheston | 81 | 86 | 71 | -17.4 | 9 |
| Crymych | 956 | 991 | 1011 | 2.0 | 59 |
| Cwm Gwaun | 168 | 178 | 168 | -5.6 | 55 |
| Dale | 23 | 13 | 18 | 38.5 | 10 |
| Dinas | 380 | 357 | 326 | -8.7 | 43 |
| Eglwyswrw | 466 | 446 | 419 | -6.1 | 55 |
| Abergwaun ac Wdig | 1778 | 1692 | 1541 | -8.9 | 29 |
| Freystrop | 71 | 84 | 64 | -23.8 | 12 |
| Cas-lai | 156 | 167 | 135 | -19.2 | 30 |
| Herbrandston | 59 | 41 | 51 | 24.4 | 12 |
| Hook | 78 | 106 | 109 | 2.8 | 12 |
| Hundleton | 88 | 98 | 67 | -31.6 | 8 |
| Jeffreyston | 73 | 69 | 70 | 1.4 | 13 |
| Cilgeti / Begeli | 221 | 239 | 237 | -0.8 | 11 |
| Llandyfái | 105 | 80 | 89 | 11.3 | 10 |
| Llangwm | 110 | 100 | 79 | -21.0 | 10 |
| Llanrhian | 467 | 408 | 351 | -14.0 | 40 |
| Llawhaden | 145 | 150 | 129 | -14.0 | 21 |
| Maenclochog | 402 | 389 | 370 | -4.9 | 51 |
| Maenorbŷr | 162 | 152 | 134 | -11.8 | 11 |
| Marloes a San Ffraid | 44 | 29 | 49 | 69.0 | 16 |
| Martletwy | 68 | 81 | 80 | -1.2 | 14 |
| Mathri | 238 | 196 | 157 | -19.9 | 32 |
| Pont Fadlen | 358 | 307 | 256 | -16.6 | 12 |
| Aberdaugleddau | 1510 | 1191 | 1134 | -4.8 | 8 |
| Mynachlog-ddu | 205 | 204 | 170 | -16.7 | 34 |
| Nanhyfer | 438 | 417 | 365 | -12.5 | 43 |
| Trefdraeth | 530 | 483 | 418 | -13.5 | 41 |
| Nolton a'r Garn | 96 | 119 | 107 | -10.1 | 13 |
| Penalun | 107 | 114 | 116 | 1.8 | 14 |
| Pen-caer | 176 | 187 | 146 | -21.9 | 35 |
| Cas-mael | 269 | 287 | 249 | -13.2 | 48 |
| Tyddewi a Chlos y Gadeirlan | 633 | 523 | 425 | -18.7 | 24 |
| Llandudoch | 627 | 574 | 500 | -12.9 | 41 |
| Llanismel | 61 | 36 | 43 | 19.4 | 10 |
| Llanfair Dinbych-y-pysgod | 91 | 93 | 105 | 12.9 | 13 |
| Saundersfoot | 297 | 269 | 238 | -11.5 | 10 |
| Solfach | 288 | 258 | 162 | -37.2 | 21 |


| Cymuned | Cyfrifiad 2001 | Cyfrifiad 2011 | Cyfrifiad 2021 | % cynnydd /gostyngiad 2011 i 2021 | %Siaradwyr Cymraeg 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystagbwll a Chastellmartin | 86 | 70 | 57 | -18.6 | 10 |
| Dinbych-y-pysgod | 542 | 470 | 449 | -4.5 | 11 |
| Yr Hafanau | 145 | 147 | 133 | -9.5 | 12 |
| Uzmaston, Boulston a Slebets | 135 | 120 | 123 | 2.5 | 18 |
| Castell Walwyn | 58 | 54 | 30 | -44.4 | 10 |

- Mae'r ffigurau uchod yn dangos dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol, ac mai dim ond pedair ardal Cyngor Cymuned oedd â thros hanner eu poblogaeth yn gallu siarad Cymraeg i lawr o bump yn 2011 a saith yn 2001.

**Ffigur 1 – Y Canran o'r boblogaeth fesul ardal Cyngor Cymuned yn y Parc Cenedlaethol neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2021**)



**Ffigur 2 – Y Canran o’r boblogaeth fesul ardal Cyngor Cymuned yn y Parc Cenedlaethol neu’n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol sy’n gallu siarad Cymraeg – Canran y newid rhwng 2011 – 2021**




Ffynhonnell: ONS - Cyfrifiad 2021 (PPO14)

**Cynnydd yn nifer yr unedau tai fforddiadwy a adeiladwyd yn ystod oes y Strategaeth.**

- Gall tai fforddiadwy fod o gymorth i gryfhau sefyllfa’r Gymraeg yn y gymuned. Gall penderfyniadau ynglŷn â math, graddfa, defnyddio mesurau rheoli deiliadaeth, ac union leoliad datblygiadau o fewn cymuned benodol fod â’r potensial i gael effaith ar ddefnydd iaith ac, o ganlyniad, ar gynaliadwyedd a bywiogrwydd y Gymraeg. Nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd fis Ebrill 2022 o'r dyddiad sylfaen yn 2015 oedd 166, o’i gymharu â tharged o 161 (Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2021-22).

**Cynllun Datblygu Lleol 2**

- Yn ystod Cyfnod Strategaeth y Gymraeg, cynhaliwyd adolygiad o’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), gan arwain at fabwysiadu CDLl2 fis Medi 2020. Mae’r Cynllun yn cydnabod bod yr iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol, ac mae’n gwarchod yr iaith fel un o'i Rinweddau Arbennig. Mae’r Cynllun yn cofnodi bod 19.2% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg a bod eraill â pheth gwybodaeth o’r iaith neu wrthi’n dysgu’r iaith. Mae amrywiadau sylweddol rhwng y cyfrannau o siaradwyr Cymraeg yn y gwahanol gymunedau.

- Mae Polisi 13 yn clustnodi Ardaloedd Sensitif i'r Gymraeg, lle bydd cynigion, fel y nodir yn y polisi, y bernir eu bod yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr iaith Gymraeg, yn destun Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, gan nodi'r mesurau i'w cymryd i warchod, hyrwyddo a chyfoethogi'r Gymraeg. Bydd y polisi fel arfer yn berthnasol yn yr ardaloedd Cynghorau Cymuned a Thref hynny sydd â 19.2% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad.
- Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud yn groes i Bolisi 13 (Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2021-22).

**Asesiad Llesiant Sir Benfro**

Ymhlith y canfyddiadau allweddol ar yr Iaith Gymraeg yn Asesiad Llesiant Sir Benfro mae'r canlynol:

- Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu yn y sir.
- Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym nad ydynt yn hyderus y byddant yn gallu byw a gweithio yn Sir Benfro yn y dyfodol.
- Bernir bod prinder tai fforddiadwy yn Sir Benfro yn rhwystr i bobl ifanc aros yn y sir.
- Mae nifer sylweddol o ail gartrefi yn y sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Mae diffyg tai fforddiadwy yn y sir.
- Rhagwelir y bydd yr angen am dai fforddiadwy yn cynyddu.
- Bu cynnydd yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro.

**Meysydd Gweithredu**

- Mae'r Strategaeth wedi clustnodi nifer o feysydd gweithredu, ac mae camau ymlaen wedi'u cymryd ar nifer o'r meysydd hynny fel yr amlinellir yn gynharach yn y ddogfen hon, megis mynychu digwyddiadau fel sioeau amaethyddol a gynhelir yn y Parc Cenedlaethol, gweithgareddau a digwyddiadau ar safleoedd a chanolfannau'r Awdurdod, datblygu'r rhaglen teithiau tywys, a gwaith ysgolion.
- Mae camau eraill, megis rhoi cyfle i Awdur Preswyl Cymraeg weithio yng Nghanolfannau'r Parc Cenedlaethol, a datblygu cynllun mentora ar gyfer dysgwyr Cymraeg, heb eu cymryd.

**Argymhellion**

- Data ar ddigwyddiadau dwyieithog i'w gadw fel categori ar wahân.
- Archwiliad o'r arwyddion yn safleoedd a chanolfannau'r Parc Cenedlaethol i'w gynnal.
- Archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg i'w gynnal.
- Strategaeth 2023-2028 i gynnwys rôl Aelodau a gwirfoddolwyr i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.